| | Targed | Sut? | Esiampl |
|---|---|---|---|
| Targed 1 | Defnyddio ffynonellau academaidd yn hytrach na gorddefnyddio gwefannau. | Rydw i wedi ceisio defnyddio ffynonellau academaidd gan gynnwys mwy o erthyglau a cyfnodolion. | Ystod o ffynhonnellau dibynadwy, academaidd trwy gydol yr aseiniad. |
| Targed 2 | Parhau i ysgrifennu mewn arddull academaidd a defnyddio iaith ffurfiol. | Rydw i wedi ceisio parhau i ysgrifennu mewn dull academaidd gan ddefnyddio iaith ffurfiol a proffesiynol. | Tudalen 4 wrth cyflwyno'r testun. |

# ECAD6010-C

Cylch 3 Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Cari Ann Tinnuche
1811204
Nifer o eiriau: 4945

# Cynnwys

Tudalen cynnwys……..2
Cyd-destun yr ymchwil……4
Trosolwg……5 - 6
Yr Astudiaeth Gwers……7 - 8
1. Arsylwad……9
2. Cyfweliad Grŵp……10
3. Adfyfyrio……...11
Ystyriaethau Moesegol……12 - 13
Canlyniadau……..14 - 15
Argymhellion……....16
Cyfeiriadau……17 - 23

## Cyd-destun yr ymchwil

Noda Prout a James (1997) bod plant yn "weithgar wrth adeiladu eu bywydau eu hunain ac yn y cymdeithasau y maent yn byw ynddynt" ond cydnabwyd y gallai, ac y dylai, fod gan blant fwy o lais a rhan ryngweithiol wrth gynhyrchu data addysgol a chymdeithasegol. Roedd llais a barn plant wrth wraidd yr ymchwil hon. Cytuna Niemi, Heikkinen a Kannas (2012, tud 139-147) gyda hyn gan ddweud bod cynnwys myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau ac addysgol yw un o'r camau cyntaf hanfodol wrth ddatblygu addysg.

Ein cwestiwn ymchwil ffurfiol yw "Ydy cwestiynu yn cynyddu ymrwymiad yn ystod amser carped?", mae'r cwestiwn yn un agored er mwyn sicrhau does dim tueddrwydd yn dod o'r cwestiwn. Adrodda Fredericks (2014) bod llawer o athrawon yn nodi ymgysylltiad myfyrwyr fel yr "her fwyaf y maent yn ei hwynebu yn eu hystafelloedd dosbarth", ac felly mae'n bwysig i athrawon sicrhau bod nhw'n manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r wers er mwyn sicrhau cynnydd.

Nod yr ymchwil yma oedd darganfod mwy o wybodaeth ar y pwnc ffocuswyd arno, ynghyd a datblygu fel addysgwyr mwy gwybodus. Darganfuwyd Austin (2016, tud 15) bod nifer o fanteision i ymchwil addysgol, er enghraifft, mae'n helpu egluro dibenion, prosesau a blaenoriaethau wrth gyflwyno newid. Mae ymchwil hefyd yn helpu athrawon ac addysgwyr dod o hyd i atebion i broblemau penodol sy'n codi yn yr ystafell ddosbarth neu ysgol. Ein nod a bwriad yw sicrhau ein bod yn defnyddio amser carped i ddatblygu dysgu'r plant gymaint â phosibl, wrth sicrhau'r ymgysylltiad ac ymrwymiad mwyaf posibl yn y sesiwn ar y carped.

Esbonia The Educators Room (2015), mae amser carped yn rhoi cyfle i blant datblygu a defnyddio pa bynnag gysyniadau maen nhw yn dysgu, ac yn rhoi cyfle i athrawon herio'r dysgu a mynd a'r dysgu un cam ymhellach. Credaf, enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, bod amser carped yn amser hynod o bwysig yn ystod y dydd ac yn rhoi nifer o gyfleoedd i ni fel athrawon i sicrhau dealltwriaeth a datblygiad. Nid oes llawer o ymchwil ar amser carped er bod hi'n rhan enfawr o fywyd dydd i ddydd gyda'r dosbarthiadau ifanc. Gwelais yn ystod fy mhrofiad addysgu ym Mlwyddyn Un bod hi'n anodd cadw ffocws y plant yn ystod yr amser ar y carped yn cyflwyno testun neu wers iddyn nhw, ac o hwn deilliodd y dasg ymchwil.

Bu'r ymchwil yn cael ei chynnal yn ysgol Cymraeg, trefol, gyda dros 400 o fyfyrwyr. Fydd yr ymchwil yn cael ei chynnal yn y Cyfnod Sylfaen, yn bennaf Blwyddyn 1, a fydd yr oedran yma yn rhoi cyfle da i ni asesu ymrwymiad y plant yn y sesiwn. Penderfynwyd ar y cwestiwn yma gyda fy mhartner, ar ôl trafodaeth o beth hoffwn ni darganfod mwy amdano yn yr

ystafell dosbarth. Cytunon ni fel partneriaid bod amser carped yn rhan fawr o'r dysgu yn ein hystafelloedd dysgu, a phenderfynon ni fyddai'n syniad da i ffocysu arno un o'r 4 dull asesu ar gyfer dysgu. Roedd y penderfyniad i ffocysu arno gwestiynu yn un haws a naturiol, yn enwedig wrth ystyried effaith gwych cwestiynu arno ddysgu: dywed Doherty (2017) bod sawl pwrpas i gwestiynu, ac mae'n ennyn diddordeb myfyrwyr yn y broses ddysgu.

Fydd yr ymchwil hon yn datblygu ein dealltwriaeth flaenorol amdano amser carped, ynghyd a datblygu ni fel athrawon. Fydd hwn hefyd o fudd i ein Pasbort Dysgu Proffesiynol, trwy dangos ein datblygiad fel addysgwyr, ein cynnydd proffesiynol, ynghyd a chysylltu gydag ein safonau proffesiynol. Un esiampl o Safon fydd yn cael ei fwrw trwy gydol y broses o wneud yr ymchwil yma fydd "dysgu proffesiynol parhaus" o dan y ffocws "dysgu proffesiynol" (Llywodraeth Cymru, 2017). Fydd yr ymchwil hefyd yn cwympo o dan y safon "darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil" oherwydd fyddaf yn sicrhau fy mod yn gwneud ymchwil dwfn mewn i'r pwnc, gan gefnogi fy methodoleg gyda theori.

## Trosolwg

Mae cwestiynu yn un dull o Asesu ar Gyfer Dysgu. Mi fyddaf yn galw Asesu ar Gyfer Dysgu yn AagD yn ystod y trosolwg yma. Fel esbonnir gan Assessment Reform Group (2002, tud 10), Asesu ar Gyfer Dysgu yw'r proses o ddarganfod tystiolaeth gan ddysgwyr er mwyn penderfynu ble mae'r dysgwyr yn ei ddysgu, ble mae'n rhaid iddyn nhw fynd, ac fel i gyrraedd yno. Mae Asesu ar Gyfer Dysgu yn ffocysu arno asesu ffurfiannol sydd yn helpu athrawon penderfynu ar gamau dysgu nesaf y myfyriwr (Wiliam, Black 2009. Tud 5-31) ond nid oes rhaid i athrawon paratoi mwy o waith er mwyn defnyddio AagD yn ei dosbarth: mae'n ddull o addysgu, nid mwy o waith (Spenceley, dim dyddiad).

Adrodda ESTYN (2018) un esiampl Asesu ar Gyfer Dysgu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol; ac eglura ESTYN bod y strategaethau gan yr ysgol yma wedi cael effaith sylweddol ar newid y diwylliant yn yr ystafelloedd dosbarth, gan ddweud bod y "systemau newydd Asesu ar Gyfer Dysgu wedi creu ethos cefnogol a chydweithredol". Mae'r erthygl yn mynd ymlaen i ddweud "mae'r prosesau AagD wedi helpu i greu ymdeimlad o hunaneffeithiolrwydd, hyder yn eu gallu i gyrraedd targedau trwy waith caled", gan dangos pwysigrwydd defnyddio'r dulliau yma yn y dosbarth.

Yn y ddogfen "Raising Attainment" amlinella West Lothian Council Educational Psychology Service (2021) beth yn gwmws yw pwysigrwydd cwestiynu, gan ddweud dylai cwestiynau da "arwain y dysgwr ar daith lle mae cydbwysedd rhwng cynnwys (pwy, beth, pryd) a phroses (sut a pam?)". Mae cwestiynau o ansawdd uchel yn arwain tuag at drafodaethau ansawdd uchel (Llywodraeth Cymru, 2010). Awgryma Collier (2018) bod nifer o fanteision i gwestiynu effeithiol, gan gynnwys helpu myfyrwyr i sicrhau eu dealltwriaeth, ysgogi myfyrwyr i deimlo'n hyderus yn ei syniadau, ynghyd â datblygu sgiliau siarad a gwrando'r plant.

Noda ymchwil bod tua 40% o amser ystafell ddosbarth yn cael ei chynnal mewn modd cwestiwn-ymateb (Arslan, 2006. Tud 82): mae hwn yn rhoi esiampl ohonom ni o'r effaith mae cwestiynu yn gallu cael ar lawr yr ystafell dosbarth: enwedig os mae cwestiynu yn cymryd lan bron â 40% o'r amser addysgu. Cytuna Applebee et al (2003, tud 685-730) gyda hyn, trwy ddadlau bod ymchwil yn dangos ymgysylltiad i'r wers llawer yn well trwy gwestiynu a thrafod, gan arwain tuag at ganlyniadau dysgu well ac ymrwymiad gwell. Dywed Walsh, Sattes (2015. Tud 13) bod addysgwyr / athrawon sydd yn dysgu i ofyn cwestiynau o ansawdd uchel yn gallu trawsnewid rhyngweithiadau nodweddiadol yn yr ystafell ddosbarth, ac mae'r pwysau arno ysgwyddau ni fel athrawon i sicrhau ein bod ni yn herio'r plant er mwyn sicrhau cynnydd (Llywodraeth Cymru, 2021) Amlinella Primary Practice (2021) rhai o'r

rhesymau mae amser carped mor bwysig, gan ddweud bod amser carped yn helpu plant i gymdeithasu, annog cyfeillgarwch a thrafodaeth, rhannu a hyd yn oed eistedd a gwrando'n dawel yn ogystal â'r manteision addysgol. Cefnoga Pichon (2012. Tud 1-32) hyn, gan ddweud bod ystod eang o fanteision i amser carped, yn enwedig yr ymdeimlad o le cyfeillgar a chyfarwydd i'r plant.

Nad oes llawer o ymchwil yn benodol wedi cael ei wneud ar amser carped neu ymrwymiad yn ystod amser carped. Ond, mae llawer o dystiolaeth yn dadlau bod plant yn dysgu ac yn ymrwymo i'r wers yn well mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu cysur: dadleua Dean (2001, tud 197) bod athrawon yn "gosod safonau yn ôl yr amgylchedd maen nhw'n cynnig i blant". Awgryma hyn i ni fod amgylchedd cyfforddus yn cael effaith positif ar yr hyn mae plant yn dysgu: a bellach yn cefnogi bod amser carped llwyddiannus yn amser sydd yn agored trafodaeth gyfeillgar gydag ymdeimlad o berthyn.

Un peth o bosib i'w nodi ynglŷn ag amser carped yw bod gan yr athro fwy o reolaeth dros y dysgu: darganfuwyd Galton et al. (1999) bod "athrawon wedi adrodd bod amser carped a'r ardal carped yn caniatáu iddyn nhw mwy o reolaeth dros ymddygiad a sylw'r disgyblion", ac mae hyn yn uniongyrchol yn gallu cael effaith eithaf sylfaenol ar ymrwymiad plant yn ystod amser carped ac yn beth pwysig i gofio wrth wneud yr ymchwil yma.

## Astudiaeth Gwers

Mae'r dull astudiaeth gwers yn ddull o ddatblygiad proffesiynol sy'n annog athrawon i fyfyrio are u harfer addysgu trwy broses o gynllunio gwersi cydweithredol, arsylwi gwersi, ac archwilio dysgu myfyrwyr (Lenski, Caskey. 2009. Tud 2). Ffocuswyd rhan fwyaf o gynllunio athrawon yn bennaf ar weithredoedd athrawon, nid canlyniadau myfyrwyr (Ornstein, 1997. Tud 227-237) ond mae'r dull astudiaeth gwers yn rhoi cyfle i athrawon cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a dysgu myfyrwyr.

Noda Dudley (2011) astudiaeth gwers yn fath penodol o ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth ymarfer athrawon. Mae astudiaeth gwers yn cynnwys grwpiau o athrawon ar y cyd yn cynllunio, addysgu, arsylwi a dadansoddi dysgu ac addysgu mewn 'gwersi ymchwil' (Teacher Development Trust, 2021). Defnyddiwyd y dull yma yn Siapan ers yr 1870au. Cyflwynodd Pete Dudley y dull hwn o ymchwilio i'r Deyrnas Unedig yn 2005 (Dudley, 2014. Tud 3) Dangosodd prosiect peilot Dudley bod effaith positif ar ddysgu disgyblion ac roedd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dysgu athrawon mewn astudiaeth ddiweddarach (Dudley, 2013. Tud 107-121).

Mae astudiaeth gwers wedi bod yn ennill poblogrwydd ledled y DU fel math o ddatblygiad proffesiynol a gwella ysgolion yn ehangach, ac mae nifer o fanteision iddi, gan gynnwys mwy o gydweithredu athrawon a datblygu cymuned ddysgu broffesiynol, datblygu ymarfer proffesiynol, a mwy o ffocws ar ddysgu disgyblion. (Xu, Pedder, 2014). Cytuna ymchwil Cheung, Wong (2014, tud 22-23) bod manteision i'r dull ymchwil, ac mae'r data yn cytuno gyda hyn: nododd pob un o'r astudiaeth cafodd ei chynnwys yn ymchwil Cheung a Wong bod effeithiau positif nail ai ar fyfyrwyr, athrawon, neu'r ddau. Nododd chwe astudiaeth fod astudiaeth gwers wedi cael effeithiau positif ar fyfyrwyr: gyda dros 2/3 o'r astudiaethau yn adrodd canlyniadau positif, gellir tybio bod y dull yma yn cael effeithiau cadarnhaol.

Ond, dadleua Teacher Development Trust (2017) nid yw addasu astudiaeth gwers ar gyfer ysgolion y DU heb ei anawsterau: un cyfyngiad posibl oedd bod y dull wedi'i addasu'n eang gan athrawon blaenllaw, ac o ganlyniad, nid oedd athrawon oedd yn cael cymorth yn ei ddeall yn dda. Awgryma Hadfield, Jopling (2011. Tud 203-214) bod hyn yn codi amheuaeth ar ansawdd y dull sy'n datblygu mewn rhai ysgolion. Dadleua Jones (2016) nad oes llawer o gytuno ynglŷn â beth yn gwmws yw astudiaeth gwers. Cytuna Wiliam (2016) gyda hyn, ynghyd â nodi bod rhaid ystyried llwythi gwaith athrawon – enwedig wrth ystyried bod astudiaeth gwers yn ymarfer llafarus dros ben. Mae'n bwysig i rhoi sylw i'r ddwy broblem hyn gan eu bod yn dod â chyfyngiadau mawr i'r dull ymchwil.

Wrth edrych ar y cyfyngiadau uchod, cyflwynwyd Takahashi a McDougal (2016, tud 513-526) term newydd o’r enw ‘Ymchwil Gwers Gydweithredol’ i egluro ffurf o astudiaeth gwers sydd yn cynnwys pwrpas mwy clir, astudiaeth ofalus o gynnwys academaidd, cynnig ymchwil ysgrifenedig, gwers a thrafodaeth ymchwil fyw, a rhannu o ganlyniadau. Trwy nodi'r nodweddion yma, mae’r awduron yn gobeithio cyfleu egwyddorion astudiaeth gwers yn glir, gan gadw mewn ystyriaeth bod y broses wedi’i haddasu mewn man arall ers dechrau’r 2000au gan arwain at astudiaeth gwersi heb unrhyw sylwedd. Dylai pwrpas astudio gwers bob amser ganolbwyntio ar wella canlyniadau penodol disgyblion.

## Arsylwad

Wrth ddechrau'r dasg ymchwil, cynheliais arsylwad ar lawr y dosbarth Defnyddir arsylwad yn gyffredin mewn addysgu fel offeryn i gefnogi dealltwriaeth a datblygiad (Malderez, 2003. 179-181). Defnyddiais fframwaith Graddfa Leuven tra arsylwi: dyma method o arsylwi roeddwn yn gyfarwydd â, a chredaf fydd y Raddfa Leuven yn addas ar gyfer y cwestiwn rydym yn ymchwilio i mewn i. Datblygwyd yr offeryn hwn gan dîm sydd wedi'i leoli yn Brifysgol Leuven dan oruchwyliaeth Dr. Ferre Laevers (Woods, 2016). Eglura Manning-Morton, Thorpe (2003) cafodd y Raddfa Ymrwymiad Leuven ei ddatblygu fel ffordd i asesu effaith y sefyllfa dysgu ar y plentyn trwy arsylwi a graddio lefel ymrwymiad y plentyn.

Ffilmiais y sesiwn ac wedyn cefais y cyfle i fyfyrio ar y wers ac arsylwais ar ymrwymiad y plant trwy'r clip fideo. Cynheliais hanner y sesiwn heb unrhyw cwestiynu, a'r ail hanner gyda chwestiynu, er mwyn asesu os ydy ymrwymiad y plant yn cynyddu wrth i'r sesiwn ar y carped mynd ymlaen. Gyda'r Raddfa Leuven mae graddfa i fesur yr ymddygiad yn erbyn, ac ar y daflen arsylwi cylchais ble ar y raddfa roeddwn i'n credu bod y plant yn cyrraedd, gan ychwanegu unrhyw nodweddion arall yn y bocs nodiadau.

Mae ystod o fanteision i arsylwi plant. Un o rain yw'r cyfle i weld pa fath o strategaethau mae plant yn defnyddio i gyrraedd y nod (Forman, Hall. 2005). Mae arsylwad hefyd yn rhoi cyfle i'r ymchwilwyr casglu data'r un amser mae'r astudiaeth gwers yn digwydd, ac nid oes rhaid defnyddio beth mae eraill yn dweud neu ysgrifennu: mae'n bosib gweld y data eich hun (iEduNote, dim dyddiad). Mae arsylwi yn effeithiol iawn ar gyfer plant ifanc oherwydd efallai na fyddant yn gallu esbonio rhywbeth neu ateb y cwestiynau gymaint ond mae'n rhoi cyfle i'r athrawes neu ymchwilydd gweld ymddygiad y cyfranogwr er mwyn asesu'r ymrwymiad.

Er bod manteision i arsylwi, mae arsylwi hefyd yn gallu dod gydag anfanteision. Fel eglura gan Kawulich (2012, tud 150-160), mae ansawdd yr arsylwadau yn cael eu pennu gan y gallu i ddisgrifio'r hyn a arsylwir yn gywir ac yn fanwl. Os mae rhai wedi gwneud mwy o ymchwil ar y testun, efallai bydd yr ymchwilwyr yma yn pigo lan ar bethau efallai byddai ymchwilydd arall heb weld. Awgryma Ratner (2002) gall tueddrwydd ymchwilydd hefyd chwarae rhan fawr mewn bod yn gyfyngiad posibl. Mae angen i chi (fel yr ymchwilydd) fod yn ymwybodol o'ch tueddiad i ddeall yn iawn yr hyn yr ydych yn ei arsylwi; mae'n bwysig deall beth sy'n digwydd yn y lleoliad o safbwynt y cyfranogwyr.

## Cyfweliad grŵp

Yn dilyn o'r arsylwad, cymerais allan y 3 unigolyn oedd wrth ganol yr arsylwad er mwyn cynnal cyfweliad gyda nhw fel grŵp. Noda Vaughn, Schumm, Sinagub (1996) bod cyfweliad grŵp ffocws a'r gallu i fod yn arf mawr mewn ymchwil addysgol a seicolegol. Mae cyfweliadau grŵp ffocws yn darparu data ansoddol, disgrifiadol ar gyfer astudio agweddau penodol (Rikard, Knight, Beacham, 1996. Tud 248-257). Mewn ffocws grŵp, mae'r cyfranogwyr yn rhyngweithio a'i gilydd yn hytrach nag â'r cyfwelydd; mae deinameg y grŵp yn bwysig, oherwydd o ryngweithio'r grŵp y daw'r data yn amlwg (Denscombe, 2014)

Defnyddiwyd cwestiynau agored ar gyfer y cyfweliad er mwyn asesu sut mae'r plant yn teimlo yn ystod y sesiynau ar y carped (gwelir atodiad 2). Defnyddiwyd y cwestiynau i gasglu mwy o safbwyntiau'r plant ar y testun; nid oedd unrhyw atebion disgwyliedig. Roedd yr ymchwil yn cael eu cynnal gyda phlant 5 oed felly roedd rhaid sicrhau bod y cwestiynau yn addas, Does dim llawer o adroddiadau am eu defnydd gyda phlant oed cynradd ond awgryma ymchwil eu bod yn dechneg effeithiol gyda phlant ifanc (Lewis, 1992. Tud 413-421). Roedd rhaid i'r cwestiynau sicrhau adborth ar gyfer yr ymchwil er mwyn gwneud cynnydd a datblygu'n broffesiynol. Un o'r cwestiynau gofynnwyd oedd "ydych chi'n hoffi ateb cwestiynau ar y carped?". Mae rhaid i ni fel athrawon sicrhau bod y plant yn mwynhau amser carped ac wrth ofyn y cwestiynau yma roeddwn i eisiau sicrhau bod y plant yn gweld budd i'r amser yma.

Mantais o gyfathrebu wyneb i wyneb yw bod gan y cyfwelydd yn cael y cyfle i sicrhau bod awyrgylch cyfweliad da: mae gan y cyfwelydd y cyfle i sicrhau bod yna awyrgylch hamddenol fel bod y plant yn teimlo eu bod yn gallu ateb yn hollol onest (Opdenakker, 2006). Noda Sociology Group (2022) bod cyfweliadau wyneb i wyneb gyda grŵp ffocws hefyd yn rhoi cyfle i'r cyfwelydd beirniadu ymddygiad yr unigolion sy'n cael eu cyfweld. Mae hwn yn bwysig iawn gyda phlant oherwydd mae'n rhoi'r cyfwelydd cyfle i weld os yw'r plant yn cynhyrfu neu yn edrych dan straen wrth ateb rhai o'r cwestiynau. Er bod manteision, mae hefyd cyfyngiadau i gyfweliadau grŵp ffocws wyneb i wyneb. Un o rain yw bod hi'n anodd osgoi ciwiau cymdeithasol. Gall wyneb penodol neu'r ffordd y gofynnir cwestiwn lygru atebion yr unigolion sy'n cael eu cyfweld, gan eu harwain i ateb mewn ffordd arbennig gyda'r bwriad o roi'r ateb mae'r cyfwelydd eisiau (Opdenakker, 2006). Anfantais arall yw nid yw hi'n bosib cynnal cyfweliad gyda grŵp ffocws a sicrhau hollol anhysbysrwydd iddyn nhw (Alshenqeeti, 2014. Tud 39-45). Gan fod y plant yn eistedd o flaen y cyfwelydd nid oes unrhyw ffordd i sicrhau mai'r ffordd maent yn ateb yw sut y byddent wedi ateb pe bai'r cyfweliad yn hollol anhysbys. Gall hwn achosi cwestiynau amdano ddilysrwydd y dull yma.

## Adfyfyrio

Defnyddiais dempled pedair lens, model myfyrio cafodd ei ddatblygu gan Stephen Brookfield. Dwedai Brookfield taw nod yr athro sy'n adfyfyrio'n feirniadol yw codi ymwybyddiaeth gynyddol o'i ddysgeidiaeth (University of Sydney, 2022). Cynigir Brookfield pedair lens y gall athrawon eu defnyddio mewn proses o adfyfyrio beirniadol, sef: Yr hunan cofiannol, llygaid y myfyrwyr, profiadau ein cydweithwyr, a llenyddiaeth ddamcaniaethol (Brookfield, 1995).

Mae Brookfield ei hun wedi trafod rhai o'r anfanteision gallai codi o ddefnyddio'r model yma ar gyfer adfyfyrio. Dywed Brookfield (1995) gallai'r model cael ei weld yn rhy syml a camarweiniol; ac mae rhai yn tybio fod y model yn ffocysu yn ormodol ar y gorffennol yn lle edrych ymlaen at y dyfodol. Mae un ymchwilydd wedi awgrymu fod anfantais o bosib wrth ofyn ydy hi'n bosib gweld trwy "lens" y myfyrwyr: efallai mai ein dehongliad ni ein hunain ydyw i raddau, nid safbwynt myfyrwyr (Callabor8, 2014). Er bod Brookfield ei hun yn rhannu anfanteision o'r model, mae hefyd nifer o fanteision sydd yn dod gyda'r model. Er enghraifft, mae'n ein "helpu i gael persbectif ar ein hymarfer ac egluro beth sydd o fewn (a'r tu allan) i ein maes rheolaeth" (Growth Coaching International, 2022). Mae'n hefyd darparu nifer o wahanol ddehongliadau o sefyllfaoedd cyfarwydd, gan roi cyfle i ni feddwl am un digwyddiad trwy bedair lens wahanol.

Mae pedair rhan wahanol i'r daflen adfyfyrio, fel nodir uchod. Un o'r bocsys yn y daflen adfyfyrio (atodiad 3) yw i hunan adfyfyrio: ffocysu ein profiadau fel athrawon i fyfyrio ar ba rannau o ein haddysgeg sydd angen addasu. Yr ail yw lens y myfyriwr; ymgysylltu â barn myfyrwyr am yr amgylchedd dysgu, trwy grwpiau ffocws (fel sydd yn cael ei ddefnyddio yn yr astudiaeth gwers yma) neu asesiadau dosbarth. Y drydydd bocs yw profiad cyfoedion, yn yr achos gyda'r astudiaeth gwers yma, yr athrawes dosbarth oedd y cydweithiwr oedd yn arsylwi ar y wers i roi cymorth ac adborth ar y ffordd ymlaen. A'r pedwerydd lens yw'r un ar lenyddiaeth ddamcaniaethol; cysylltu â llenyddiaeth briodol er mwyn gweld yr hyn ni'n dysgu neu'r ymchwil ni'n cynnal mewn ffordd wahanol er mwyn deall yr hyn ni'n addysgu (CNM, dim dyddiad).

## Ystyriaethau moesegol

Wrth gynnal yr ymchwil yn yr ysgol, roedd rhaid i ni ddilyn canllawiau moesegol er mwyn sicrhau tegwch i bawb oedd yn cymryd rhan. Dilynwyd Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2017) er mwyn sicrhau safonau moesegol uchel ymhlith yr holl ymchwil. Fe wnaethom lenwi ffurflen foesegol (atodiad 6) gyda manylion yr ymchwil er mwyn i'r ymchwil cael eu cymeradwyo gan ddarlithwyr yn y brifysgol. Sicrhaodd hyn fod gan ein hymchwil rywun yn ei oruchwylio ac yn sicrhau bod pob cam yn addas ar gyfer yr ymchwil oedd yn cael eu cynnal.

Cafodd canllawiau BERA (British Educational Research Association) ei ddilyn trwy gydol yr ymchwil i gyd, gan sicrhau tegwch a dilysrwydd i'r ymchwilwyr a'r cyfranogwyr. Fydd gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr yn cael ei gadw yn breifat: fel dywed yn ganllaw 40 Canllawiau Moesegol ar gyfer Ymchwil Addysgol gan BERA (2018), dylai ymchwilwyr gydnabod "hawl cyfranogwyr unigol i breifatrwydd, a dylent roi eu hawliau i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd". Nid oes unrhyw wybodaeth gallai wedi arwain at rywun yn cydnabod ein cyfranogwyr wedi cael ei rhannu, gan gynnwys enw'r ysgol, y dosbarth, neu unrhyw wybodaeth bersonol. Mae hwn i amddiffyn hawliau'r cyfranogwyr i gael ei chadw'n anhysbys. Dywed Erthygl 16 o'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (UNICEF, dim dyddiad) bod gan y plant yr hawl i breifatrwydd a fyddaf yn sicrhau bod y plant yn cael ei chadw'n anhysbys.

Ar ddechrau a trwy gydol yr ymchwil, fe wnes i'n siŵr bod y plant yn ymwybodol o'u hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil. Cyn cynnal yr ymchwil gofynnais i'r plant am eu caniatâd i gynnal yr ymchwil, gan gynnwys ffilmio'r wers. Aseswyd hyn trwy ddefnyddio bawd i fyny neu i lawr. Cydsyniodd y plant i gyd. Noda canllaw 31 o BERA (2018) bod rhaid i ymchwilwyr "cydnabod hawl yr unigolion i dynnu'n ôl o'r ymchwil am unrhyw reswm neu ddim rheswm, ar unrhyw adeg: a dylid hysbysu'r cyfranogwyr o'r hawl hon". Atgoffais y plant trwy gydol yr ymchwil o'r hawl yma gan roi'r opsiwn iddyn nhw yn ystod y wers ac yn ystod y cyfweliad i dynnu allan, ond nid oedd unrhyw anawsterau.

Gofynnwyd i'r plant am ganiatâd drwy gydol yr ymchwil, a gofynnwyd am ganiatâd y rhieni i'w plant gymryd rhan yn eu hymchwil hefyd. Gwelir o atodiad 5 yn yr atodiadau bod llythyron wedi cael ei ddanfon adref er mwyn egluro'r ymchwil i'r rhieni fel bod nhw'n gallu rhoi caniatâd hefyd. Dywed canllaw 23 o BERA bod "egwyddorion cydsynio BERA yn berthnasol i blant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion" a nodwyd bod rhaid i ymchwilwyr wneud penderfyniadau gwahanol fel y maent yn ystyried yn briodol ar gyfer plant. Mae canllaw 24 yn egluro bydd ymchwilwyr sy'n dilyn CCUHP yn ystyried hawliau a dyletswyddau'r rhai sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros blant. Danfonwyd llythyr adref i rieni'r plant yn y dosbarth, a

chydsyniodd rhieni 14 o 26 plant yn y dosbarth. Gan fod dim caniatâd, ni chymerodd y 12 arall ran ac nid oeddent yn bresennol ar gyfer yr ymchwil.

## Canlyniadau

Rhoddodd yr astudiaeth gwers cyfle da i mi asesu ymrwymiad y plant i'r sesiwn. Roedd y plant wedi ymddwyn fel y rhagwelwyd yn ystod y wers. Cyflawnodd y plant nodau'r wers: cymeron nhw ran weithredol yn yr holi ac yn y sesiwn, gan ymateb yn dda ac yn frwdfrydig i'r cwestiynau wnes i holi. Yn dilyn y brif dasg ar ôl y gwaith ar y carped, roedd y plant wedi rhoi'r hyn y dysgon nhw ar waith ac wedi cyflawni'r gwaith yn llwyddiannus. Cynhelir yr ymchwil yn ystod sesiwn iaith Aled Afal, ac ymarferodd y plant y brawddegau yn llwyddiannus ac yn hyderus gan gadw ffocws yn dda ar y dasg, ac amrywiais y cwestiynau er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i'r plant rhannu ei syniadau a'i phrofiadau nhw. Er fy mod wedi cael cyfle da i asesu eu hymgysylltiad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddysgwyd ganddynt, roedd yn anodd asesu eu hymgysylltiad trwy arsylwi gan fy mod i wedi seilio'r darganfyddiadau bant o'i hymddygiad yn unig. Dyma ddadl cyflwynwyd gan Fredericks et al (2016), gan ddweud bod ymchwilwyr wedi beirniadu dibynadwyedd defnyddio offer arsylwi i fesur ymgysylltiad: cytunaf gyda hwn, gan ddweud bod hi'n anodd mesur ymrwymiad y plant yn seiliedig ar eu hymddygiad mewn un wers.

Roedd rhaid i mi addasu'r sesiwn ar gyfer y dosbarth; roedd rhaid i bawb yn y dosbarth gwneud y dasg ond yn ystod yr astudiaeth gwers roeddwn i eisiau cadw cwpl o blant ar y carped er mwyn sicrhau fy mod yn gallu anelu'r cwestiynau tuag at y plant oedd angen anelu'r cwestiynau at. Roedd hwn yn meddwl addasu'r sesiwn a sicrhau fy mod i ddim yn gwneud gormod o ailadrodd yn ystod yr ail sesiwn er mwyn cadw'r ffocws a chadw'r dysgu yn eithaf newydd iddyn nhw dal. Roedd hwn yn her doeddwn i ddim wedi meddwl amdano neu gynllunio ar gyfer ac wedi golygu ychydig o ad-drefnu i wneud yn siŵr bod y wers yn cael ei dechrau ar gam newydd.

Dysgais i gwpl o bethau o'r astudiaeth gwers. Un peth oedd mai'n anodd myfyrio ar wers rydw i wedi dysgu: mae'n anodd bod yn gwbl ddilys a hunan-fyfyrio. Hefyd, roedd cwpl ohonyn nhw yn colli ffocws ar ôl gweld yr iPad yn ffilmio, ac o ganlyniad roedd hi'n anodd cael nhw nol ar dasg ar ôl iddyn nhw weld bod yr iPad yn ffilmio nhw. Eglura Merrett (2006) taw'r enw'r effaith yma yw'r Effaith Hawthorne: defnyddiwyd y term yma gan ymchwilwyr i egluro'r effaith o bosib gallai codi yn ystod ymchwil pryd mae'r bobl mewn astudiaeth yn ymwybodol eu bod yn rhan o arbrawf, a gellir hyn effeithio ar ganlyniadau'r ymchwil. I osgoi hyn os rwy'n cynnal yr ymchwil eto, rydw i yn bwriadu dweud wrthyn nhw bod yr iPad yn ffilmio a'i cuddio er mwyn osgoi colli ffocws y plant; a sicrhau bod dim tuedd i'r ymchwil a bod y plant yn dangos ei hymddygiad naturiol.

Gobeithiaf gynnal yr astudiaeth gwers mwy nag unwaith y tro nesaf rwy'n cynnal yr ymchwil yma. Credaf os dwi'n ailadrodd yr astudiaeth gwers ar ddiwrnod gwahanol gyda thestun

gwahanol, byddai hwn yn rhoi cyfle gwell i mi asesu ffocws ac ymrwymiad y plant – dydw i ddim yn credu bod un sesiwn ar y carped am ugain munud yn ddigon er mwyn gwneud casgliad am yr ymchwil, ac nid yw un sesiwn yn ddigonol i adfyfyrio'n drylwyr oherwydd gall amgylchiadau'r diwrnod effeithio ar ddibynadwyedd y sesiwn. Y cynllun gwreiddiol oedd cynnal yr ymchwil gyda phartner er mwyn cael cyfle i adfyfyrio ar y wers ac ail-wneud y wers, ond oherwydd amgylchiadau coronafeirws nid oedd hwn yn bosibl. Y cynllun gwreiddiol oedd cynnal gwers ein hun gyda phartner yn arsylwi, gwneud addasiadau bach, arsylwi partner yn dysgu, ac adfyfyrio.

Cyfyngiad arall codwyd o'r ymchwil, un sy'n gysylltiedig â'r pwynt uchod, yw oedd hi'n anodd iawn i beidio cael unrhyw tuedd yn ystod y dasg ymchwil. Roedd rhaid i mi fel ymchwilydd hefyd cymryd rhan fel cyfranogwr ac roedd hwn yn gwneud hi'n anodd iawn i arsylwi'r wers dysgais i heb unrhyw tueddrwydd. Gobeithiaf dro nesaf i arsylwi ar athrawon arall yn dysgu, fel bwriadwyd cyn i amgylchiadau coronafeirws newid ein cynlluniau, er mwyn sicrhau fy mod yn cymryd rhan fel ymchwilydd hollol niwtral.

Un o'r casgliadau mwyaf o'r ymchwil i mi yw pa fath o gwestiynau sydd yn denu diddordeb y plant ac yn hybu cydweithio ar y carped. Cyn yr ymchwil, roeddwn i yn tueddu gofyn cwestiynau caeedig i'r plant a chredaf fod hyn yn gwneud i blant ddim eisiau ateb rhag ofn bod nhw'n cael yr ateb yn anghywir. Yn ystod fy ngwers ymchwil gofynnais gwestiynau mwy agored, er enghraifft, beth arall wyt ti'n meddwl byddai gan Aled yn ei ystafell? Beth chi'n credu mai'r anifeiliaid yn ei ddweud wrth ei gilydd? Roedd y cwestiynau heb unrhyw atebion anghywir yn annog y plant i ddefnyddio eu dychymyg, gan achosi mwy o ffocws ymhlith y plant. Ar ôl casglu'r data ar gyfer yr ymchwil, credaf fy mod wedi casglu'r data yn y modd mwyaf diduedd posibl ond fod dal digon o le i addasu ar gyfer tro nesaf er mwyn sicrhau mwy o degwch a mwy o ddata dibynadwy. Credaf y prif bwynt i ffocysu arno addasu ar gyfer tro nesaf yw sicrhau fy mod yn cynnal yr ymchwil gydag athrawes a dosbarth gwahanol er mwyn sicrhau fy mod yn gallu gwneud yr ymchwil heb unrhyw tueddrwydd: dewis y myfyrwyr yn gyfan gwbl ar hap, ac arsylwi'r wers yn niwtral (gwers nid wyf wedi dysgu) er mwyn gallu gofyn cwestiynau yn y cyfweliad grŵp heb unrhyw tuedd.

## Awgrymiadau

Er fy mod i wedi cynnal astudiaeth gwers ar y pwnc, credaf fod y pwnc yn un fydd rhaid astudio ac arsylwi mwy arni cyn dod i benderfyniad cadarn i sicrhau canlyniadau cyflawn

gyda data dibynadwy. Er fy mod i'n credu fod dal digon o le i ymestyn ar y pwnc er mwyn dod i gasgliadau ymhellach, mae'r astudiaeth gwers wedi rhoi cyfle i fi datblygu'n broffesiynol trwy gynnal yr ymchwil yma. Yn flaenorol, rydym wedi clywed am fuddiannau cwestiynu a sut gall cwestiynu datblygu'r dysgu, ond credaf does dim llawer o sôn ar sut gall cwestiynu codi ymrwymiad unigolion yn ystod amser carped. Mae amser carped yn rhan fawr o'r Cyfnod Sylfaen, ac er bod llawer o ymchwil ar amser carped, nid oes llawer o ymchwil ynglŷn ag ymrwymiad ac amser carped. Credaf fod llawer o le i gynnal mwy o ymchwil ar y testun.

Yn ystod fy amser yn cynnal y dasg ymchwil, gwelais fod un maes arall hoffwn i ymchwilio i mewn i. Gwelais fod gwahaniaeth rhwng ymrwymiad y merched a bechgyn yn ystod yr amser ar y carped; roedd y merched yn tueddu ffocysu'n well gyda chwestiynau caeedig, ond roedd y bechgyn yn ymrwymo i'r sesiwn yn well os oedd mwy o gwestiynau agored yn cael ei ofyn. Roedd hwn yn rhywbeth roedd yn ddiddorol ac yn sefyll allan i mi, ac yn rhywbeth hoffwn i gynnal ymchwil arno yn y dyfodol er mwyn gweld os taw dim ond yn y sesiwn ymchwil oedd hwn yn digwydd neu os oes mwy o batrwm.

Tro nesaf, gobeithiaf i ymestyn fy ymchwil ymhellach er mwyn casglu mwy o ddata cyn dod i benderfyniad cadarn. Mae'r ymchwil yma wedi fy natblygu i fod yn ymarferydd adfyfyriol, gwybodus, a chredaf fod digon o le i ymestyn ar y pwnc yma. Yn ystod fy ymchwil doeddwn i ddim wedi darganfod llawer ar y testun o gwbl, dim ond cwpl o ddarnau o ymchwil hen mewn gwledydd eraill, ac roedd hwn yn fan anodd i ddechrau'r ymchwil arno. Credaf fod yr effaith o amser carped yn un gadarnhaol a bwysig a dylai mwy o ymchwil cael ei chynnal ar sut i fanteisio ar yr amser pwysig yma er mwyn cyfoethogi'r dysgu.

## Cyfeiriadau

Alshenqeeti, H. (2014) Interviewing as a Data Collection Method: a critical review. *English Linguistics Research.* 3(1). Tud 39-45. DOI: DOI: 10.5430/elr.v3n1p39

Applebee, A. Langer, J. Nystrand, M. Gamoran, A. (2003) 'Discussion Based Approaches to Developing Understanding: Classroom instruction and student performance in middle and high school English' *American Educational Research Journal.* 40 (3) tud 685-730 \

Arslan, M. (2006) *'The Role of Questioning in the Classroom'*: Fakultesi Dergisi: Turkey

AUSTIN, R. (2016). *Researching primary education*. (1st ed.) London: Sage Publications.

BERA (2018) *BERA Ethical Guidelines for Educational Research.* [ar-lein] Southwell: BERA (British Educational Research Association). Ar gael yn: https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online (darllenwyd 22 Rhagfyr 2021)

Black, P., & Wiliam, D. (2009). Developing the theory of formative assessment. *Educational Assessment, Evaluation and Accountability*, *21*(1), TUD 5-31. DOI: https://doi.org/10.1007/s11092-008-9068-5

Broadfoot, P., Daugherty, R., Gardner, J., Harlen, W., James, M. and Stobart, G., (2002.) *Assessment for learning: 10 principles: research-based principles to guide classroom practice*. Assessment Reform Group-ARG: London

Brookfield, Stephen D. (1995). *Becoming a Critically Reflective Teacher*. San Francisco, CA: Jossey-Bass

Cheung, W. Wong, W. (2014). Does Lesson Study work?: A systematic review on the effects of Lesson Study and Learning Study on teachers and students. *International Journal for Lesson and Learning Studies*. 3. DOI: 10.1108/IJLLS-05-2013-0024.

CNM (dim dyddiad) *The 4 Lenses of Reflective Practice in Teaching.* [ar-lein] ar gael yn: https://www.cnm.edu/depts/ctl/documents/the-4-lenses-of-reflective-practice-in-teaching.pdf (darllenwyd 12 Chwefror 2022)

Collier, E. (2018) *What is Effective Questioning and Why Should I Use it in My Classroom?* [ar-lein] ar gael yn: https://www.highspeedtraining.co.uk/hub/what-is-effective-questioning/ (darllenwyd 12 Chwefror 2022)

Dean, J. (2001). *Organising Learning in the Primary School Classroom* (3rd ed.). London: Routledge Falmer

Denscombe, M. (2014) *The good research guide: for small-scale social research projects*. 5th ed. Maidenhead: Open University Press, 2014.

Doherty, J. (2017) *Skillful Questioning: The Beating Heart of Good Pedagogy.* [ar-lein] ar gael yn: https://my.chartered.college/impact_article/skilful-questioning-the-beating-heart-of-good-pedagogy/ (Darllenwyd 21 Rhagfyr 2021)

Dudley, P. (2011) *Lesson study: a handbook*. [ar-lein] Lessonstudy.co.uk Ar gael yn: https://lessonstudy.co.uk/wp-content/uploads/2012/03/new-handbook-revisedMay14.pdf (darllenwyd 20 Chwefror 2022)

Dudley, P. (2013). Teacher Learning in Lesson Study: What Interaction-Level Discourse Analysis Revealed about How Teachers Utilised Imagination, Tacit Knowledge of Teaching and Fresh Evidence of Pupils Learning, to Develop Practice Knowledge and So Enhance Their Pupils' Lea. *Teaching and Teacher Education*. 34. Tud 107-121. DOI: http://dx.doi.org/10.1016/j.tate.2013.04.006

ESTYN (2018) *Asesu ar gyfer Dysgu a medrau meddwl.* [ar-lein] ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl?_ga=2.78890836.1989950690.1645797392-380852426.1644174213 (darllenwyd 3 Ionawr 2022)

Forman, G. Hall, E. (2005) Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education. *Early Childhood Research and Practice.* 7 (2) tud 187-202 DOI:10.36510/learnland.v7i1.637

Fredricks, J, Filsecker, M, & Lawson, M. (2016). Student engagement, Context, And adjustment: Addressing definitional, Measurement, And methodological issues. *Learning and Instruction*. 43. DOI: 10.1016/j.learninstruc.2016.02.002.
Fredricks, J. A. (2014). *The eight myths of student disengagement: Creating classrooms of deep learning*. Thousand Oaks, CA: Corwin Press.
Galton, M., Comber, C., Hargreaves, L., Wall, D. (1999). *Inside the Primary Classroom: 20 Years On*, London: Routledge.

Growth Coaching (2022) *Changing the Lens: Crticial Reflection*. [ar-lein] ar gael yn: https://www.growthcoaching.com.au/resource/changing-the-lens-critical-reflection-through-coaching/ (darllenwyd 21 Chwefror 2022)

Hadfield, M. Jopling, M. (2016) Problematizing lesson study and its impacts: Studying a highly contextualised approach to professional learning. *Teaching and Teacher Education*, *60*, TUD 203-214. DOI:10.1016/j.tate.2016.08.001

iEduNote (dim dyddiad) *Observation Method of Data Collection* [ar-lein] ar gael yn: https://www.iedunote.com/observation-method-of-data-collection (darllenwyd 22 Rhagfyr 2022)

Jones, G. (2016) *World Association of Lesson Study.* [Cyflwyniad pwyntpwer] Ar gael yn: https://www.slideshare.net/GaryJones31/v5-wals-and-lesson-study-2016-65658506 (darllenwyd 21 Rhagfyr 2021)

Kawulich, B. (2012) Collecting data through observation. *Doing social research: A global context.* 6 (12) TUD 150-160.

Lenski, S. J., & Caskey, M. M. (2009). *Using the Lesson Study Approach to Plan for Student Learning. Middle School Journal,* 40(3).

Lewis, A. (1992) Group Child Interviews as a Research Tool, *British Educational Research Journal.* 18:4. 413-421. DOI: 10.1080/0141192920180407

Llywodraeth Cymru (2010) *How to Develop Thinking and Assessment for Learning in the classroom.* [ar-lein] Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/663d00fd-9c3b-4003-9a1f-0012bad39fad/how-to-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf (darllenwyd 13 Chwefror 2022)

Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.* [ar-lein] Caerdydd: Llywodraeth Cymru. ar gael yn: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/ (darllenwyd 2 Chwefror 2022)

Llywodraeth Cymru (2021) *Cefnogi cynnydd dysgwyr – canllawiau asesu* [Ar lein] Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/ (darllenwyd 13 Chwefror 2022)

Malderez, A. (2003) Observation, *ELT Journal*. 57 (2) Tud 179–181. DOI: https://doi.org/10.1093/elt/57.2.179

Manning-Morton, J. Thorpe, M. (2003) *Key Times for Play: The first three years. 1st ed.* Maidenhead: Open University Press.

Merrett, F. (2006) 'Reflections on the Hawthorne Effect', *Educational Psychology: An International Journal of Experimental Educational Psychology*, 26(1) tud. 143-146 Available at: https://doi-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1080/01443410500341080 (Accessed: 23 February 2022)

Niemi, R. Heikkinen, H. Kannas, L. (2010) Polyphony in the classroom: reporting narrative action research reflexively. *Educational Action Research*, *18*(2), pp.137-149. Doi: https://doi.org/10.1080/09650791003740485

Opdenakker, R. (2006) Advantages and Disadvantages of Four Interview Techniques in Qualitative Research. *Forum Qualitative Social Research.* 7 (4:11)
Ornstein, A. (1997) 'How Teachers Plan Lessons' *The High School Journal.* 80(4) tud 227-237.

Pichon, C., (2012). Sitting on the Carpet–Children's Attitudes to the Spaces of the Classroom. *Journal of Trainee Teacher Educational Research*, *4*, tud.1-32.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (2017) *Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil. [*ar-lein] Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ar gael yn: https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/misc-forms/REICoP-17-20-v3-CYM.pdf (darllenwyd 13 Chwefror 2022)

Primary Practice (2021) *Carpet Teaching areas in Primary Schools.* [ar-lein] ar gael yn: http://primarypractice.co.uk/2017/05/08/carpet-teaching-areas-primary-schools/ (darllenwyd 28 Rhagfyr 2021)

Prout, A. James, A. (1997) *'A new paradigm for the sociology of childhood provenance, promise, and problems"* (2nd ed) London: Falmer Press

Ratner, C (2002) Subjectivity and Objectivity in Qualitative Methodology. *Forum Qualitative Social Research.* 3(3) **DOI:** https://doi.org/10.17169/fqs-3.3.829

Rikard, G.L. Knight, S. Beacham, B.G. (1996) The application of focus group interviews for educational program assessment. *The Teacher Educator.* 31(3) tud. 248-257. DOI: https://doi.org/10.1080/08878739609555116

Sociology Group (2022) *Advantages and Disadvantages of Interview in Research.* [ar-lein] ar gael yn: https://www.sociologygroup.com/advantages-disadvantages-interview-research/ (darllenwyd 1 Chwefror 2022)

Spenceley, P. (dim dyddiad) *Demonstrating outstanding teaching and learning through AFL in the classroom*. [cyflwyniad pwyntpwer] Rochester Grammar. Ar gael yn: https://my.optimus-education.com/sites/optimus-education.com/files/session_1b_-_paul_spenceley.pdf (darllenwyd 1 Ionawr 2022)

Takahashi, A. McDougal, T. (2016) Collaborative lesson research: maximizing the impact of lesson study. *ZDM Mathematics Education.* 48. Tud 513-526. DOI: https://doi.org/10.1007/s11858-015-0752-x

Teacher Development Trust (2017) *Can Lesson Study Work in the UK?* [ar-lein] ar gael yn: https://tdtrust.org/2017/03/10/lessonstudyintheuk/ (Darllenwyd 23 Ionawr 2022)

Teacher Development Trust (2021) *What is Lesson Study?* [AR-LEIN] ar gael yn: https://tdtrust.org/what-is-lesson-study/ (darllenwyd 27 Ionawr 2022)

The Educators Room (2015) *Carpet Time for Young Learners.* [ar-lein] ar gael yn: https://theeducatorsroom.com/carpet-time-young-learners/ (darllenwyd 28 Rhagfyr 2021)

UNICEF (dim dyddiad) *The United Nations Convention on the Rights of the Child.* [Ar-lein] ar gael yn: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/unicef-convention-rights-child-uncrc.pdf?_adal_sd=www.unicef.org.uk.1645819810559&_adal_ca=so%3DGoogle%26me%3Dorganic%26ca%3D(not%2520set)%26co%3D(not%2520set)%26ke%3D(not%2520set).1645819810559&_adal_cw=1645819781104.1645819810559&_adal_id=2a6ad297-5e4e-41ba-b4ae-e04679ee3e4d.1645819781.2.1645819781.1645819781.8a57435e-8422-437a-aeba-b902a767e7d3.1645819810559&_ga=2.173223651.1949613753.1645819781-1823032397.1645819781 (darllenwyd 27 Rhagfyr 2021)

University of Sydney (2022) *Brookfield's Four Lenses: Becoming a Critically Reflective Teacher.* [ar-lein] ar gael yn: https://valenciacollege.edu/faculty/development/courses-resources/documents/brookfield_summary.pdf (darllenwyd 20 Chwefror 2022)

Vaughn, S., Schumm, J. S., & Sinagub, J. M. (1996). *Focus group interviews in education and psychology.* California: Sage Publications.

Walsh, J. Sattes, B. (2015) *Questioning for Classroom Discussion: Purposeful Speaking, Engaged Listeningm Deep Thinking.* Chicago: ACSD.

West Lothian Council (2021) *Raising Attainment: Effective Questioning.* [ar-lein] ar gael yn: https://www.westlothian.gov.uk/media/2681/Questioning/pdf/Questioning.pdf (Darllenwyd 30 Rhagfyr 2021)

Wiliam, D. (2016) *Leadership for teacher learning.* [cyflwyniad pwyntpwer] ar gael yn: https://www.education.byu.edu/sites/default/files/CITES/documents/Dylan%20Wiliam%20Leadership%20for%20Teacher%20Learning.pdf (Darllenwyd 12 Chwefror 2022)

Woods, A. (2016) *Examining Levels of Involvement in the Early Years: Engaging with Children's Possibilities.*1st Ed. London: Taylor & Francis Group.

Xu, H. Pedder, D. (2014) *Lesson Study: An international review of the research.* 1st ed. Routledge: London